# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 6ed o Fehefin 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

1. **Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Anwen Jones, Delyth Parry, Euros Jones, Dylan Thomas, Angela Williams, Tegid Jones, Miriam Williams, Gareth O. Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Margaret Griffith, Aled Davies, a Darren Morley.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 9fed o Fai 2024.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mai 2024**

4. **Datgan buddiant personol –**
**Cynghorydd Angela Williams** – Eitem 7b cais cynllunio Cefn Gadlas oherwydd ei bod yn gymydog, ac Eitem 14 Cae Chwarae Llangybi oherwydd ei bod yn byw hefo'r person sydd wedi rhoi pris.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**a) Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mehefin 2024**

| Lleoliad | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Llanystumdwy** | **Tîm Tacluso – Ardal Ni 24 – 28 Mehefin** | **Priffyrdd** |

**b) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd) (Ardal Dwyfor Rhif 8) 2024 – Rhybudd 1af**

Os dymunir gwneud sylwadau neu wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylid anfon gwrthwynebiad mewn ysgrifen gan nodi rhesymau dros wneud hynny drwy e-bost at KarenElizabethFraserDuggan@gwynedd.llyw.cymru cyn **12fed o Fehefin, 2024**.

| Lleoliad / Disgrifiad | Cyfyngiad newydd |
|---|---|
| **CHWILOG**<br>Ffordd Dosbarth II – Ffordd y B4354<br>Ar ochr ddeheuol y ffordd ar naill ochr i gyffordd Cae Capel<br><br>Ffordd Dosbarth III - ger Golchdy Afonwen<br>Ar ddwy ochr y ffordd ar y gyffordd gogleddol sy'n arwain i'r Golchdy a mynediad Fferm Mur Clwt Lloer | Dim aros ar unrhyw adeg<br><br><br><br>Dim aros ar unrhyw adeg |

6. **Un Llais Cymru-** Cynhadledd Arfer Arloesol ddydd Mercher 3ydd Gorffennaf 2024 yn Llanelwedd. Angen cofrestru - neb.

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais rhif: C24/0369/41/LL – Fferm Penbryn, Llangybi,**
Adeiladu to dros storfa slyri ac iard bwydo gwartheg, er mwyn gwahanu dwr glaw o'r slyri a gynhyrchir yn yr iard – **Cefnogi**.

b) **Cais rhif: C24/0366/41/RC - Cefn Gadlas, Llangybi, Pwllheli**
Dileu cytundeb 106 ar ganiatad cynllunio 2/21/360A, a oedd yn clymu'r eiddo ar gyfer angen lleol – **Gwrthwynebu – dim llawer o resymau dros godi'r amod ar y cais.**

c) **Cais rhif: C24/0409/41/DT - 2 Rhesdai Afonwen, Afonwen, Pwllheli.**
Gosod pwmp gwres - **Cefnogi**.

8. **Sedd wag yn Ward Llanystumdwy**. Mae'r Clerc wedi gosod posteri o flaen y Neuadd a'r Plu, ac ar y safle wé i holi os oes gan rywun ddiddordeb, mae'r dyddiad cau ar 10.06.2024. Os na fydd ymateb, bydd angen cyfethol.

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**
**Bedd Lloyd George** – angen ei dacluso - Clerc wedi cysylltu hefo Mr Rhys Jones i ofyn wrtho fynd yno cyn gynted a phosib.

10. **Cynlluniau Tŷ Gwynedd Llanystumdwy**
Sesiwn galw-i-mewn yn Y Plu 06.06.2024 rhwng 4 – 6:30 y.h.
Roedd gan Cyngor Gwynedd gynlluniau i godi 5 tŷ o dan gynllun Tŷ Gwynedd ar ddarn o dir ger Maes Llwyd yn Llanystumdwy. Yn ddibynol ar ganiatâd cynllunio, ei bwriad ydi adeiladu cartrefi fforddiadwy i bobl leol sy'n methu prynu neu rentu tŷ ar y farchnad agored ond sy'n annhebygol o fod yn gymwys am dai cymdeithasol. Bydd y tai yn dilyn egwyddorion penodol, sef eu bod yn fforddiadwy, cynaliadwy ac ynni-effeithiol. Derbyn.

11. **Rhoslan/Ynys**

12. **Chwilog**
a) **Llwybr Cyhoeddus ger Siop Povey yn arwain at Bro Sion Wyn**

Nid yw'r llwybr yn cael ei dorri gan Cyngor Gwynedd yn aml iawn, tua dwywaith y flwyddyn os hynny, a derbyniwyd cais yn gofyn os byddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cymryd cyfrifoldeb. Clerc wedi anfon ebost at Cyngor Gwynedd yn gofyn wrthynt ei dorri, ac mae'r Cynghorydd Rhys Tudur am holi i weld os gwnaiff y Tím Tacluso gynorthwyo i'w dorri'n amlach na dwywaith y flwyddyn.

b) **Llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen** – Cynghorydd Rhys Tudur wedi cael diweddariad gan Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig Cyngor Gwynedd.
Dywedodd ei fod wedi cael gwybod fod y cais cyfredol am grant wedi cael i wrthod eto gan Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd gwybodaeth fod cais eleni am grant yn aflwyddianus,

oherwydd nad oedd y cwestiynau i gyd wedi cael ei cwblhau a nad oedd y dogfennau angenrheidiol wedi cael ei darparu hefo'r cais.

Eglurodd ei fod wedi cael gwybod y byddai swyddogion y Cyngor yn rhoi sylw manwl i'r sylwadau a dderbyniwyd cyn ail gyflwyno'r cais nesaf, sy'n debygol o fod ym mis Ionawr 2025 os byddai Llywodraeth yn gwahodd cynghorau i gyflwyno cais yn 2025.

Barn y Cynghorwyr oedd ei bod yn hynod o siomedig hefo'r sefyllfa. Nodwyd bod tua 10 mlynedd ers i'r cais am lwybr gael ei wneud, a'i fod yn fater hynod o bwysig yn yr ardal. Casglwyd deiseb gyda channoedd o enwau rai blynyddoedd yn nol gan drigolion yr ardal leol, yn galw am lwybr saff i alluogi cerdded lawr i Afonwen.

Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Dafydd Meirig, a Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd yn gofyn:-

- Pwy sydd yn cytuno fod y cais a wnaed yn gyflawn cyn ei anfon at Llywodraeth Cymru.
- Un swyddog penodol sydd yn gwneud y gwaith yma, neu oes rhai gwahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd o fewn Gwynedd?
- Nid oes gobaith i gais fel hyn lwyddo, hefo tua 19 cwestiwn heb ei ateb, mae'r mater yn gwbl anfoddhaol.
- Mae pentref Chwilog yn hynod o brysur, 2 stad o dai newydd yno, yr ysgol gynradd yn llawn, Cylch Meithrin, neuadd hynod o brysur, 2 gapel, siop cigydd, tafarn a llawer o bobl a phlant yn cerdded ar hyd y llwybrau/Lón Goed ac i lawr i Afonwen. Mae'r lon mor brysur i lawr am Afonwen, ac mae peryglon mawr wrth weld pobl a phlant yn cerdded ar hyd y lon yn gyson. Mae pobl yn cerdded o'r pentref i weithio yng Ngolchdy Afonwen, a Hafan y Mór ers blynyddoedd.
- Os oes problem ateb cwestiynau ar y ffurflen gais am grant, byddem fel Cyngor Cymuned yn hapus iawn i drafod unrhyw fater.

Bydd y Cynghorydd Rhys Tudur yn parhau i wneud ymholiadau ar ran y gymuned ar bwysigrwydd y llwybr yma.

13. **Pencaenewydd/Sardis**

Derbyniwyd cwyn am y ffordd o Lodge Trallwyn Uchaf tuag at fynedfa Glasfryn ar lon Pencaenewydd. Mae bron yn amhosib i gerbydau mawr basio'n saff oherwydd tyfiant angen ei dorri ac mae'n rhaid teithio ar ganol y lon. Y Clerc wedi cyfeirio'r mater at Cyngor Gwynedd ac am holi eto.

14. **Llangybi**

**Cae chwarae Llangybi –** diweddariad - roeddem wedi cael un pris i beintio'r offer ers dechrau'r flwyddyn, ond gofynwyd i'r Clerc gael pris arall hefyd. Y Clerc wedi gofyn am bris gan berson arall ond dal heb ei dderbyn eto. Gofynwyd i'r Clerc ofyn am bris arall ymhen yr wythnos am beintio'r offer.

Rydym hefyd wedi cael un pris ar gyfer gosod llawr newydd o dan yr offer, ond mae angen 3 pris i gyd er mwyn gwneud cais am y grant. Y Clerc yn gobeithio bydd wedi cael 2 bris arall erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.

15. **Materion Ariannol**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.05.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. Mae'r Clerc wedi anfon yr holl wybodaeth at yr Adran Archwilio, Cyngor Gwynedd er mwyn iddynt wneud yr archwilio mewnol.

17. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio Cymru | Archwilio allannol 2022/2023 C01357 ARINV/010969 | **200.00** | | **200.00** | **200.00** |
| Capel Pencaenewydd | Cynnal 4 cyfarfod, 01.02.24 07.03.24 /04.04.24/09.05.24 | **80.00** | | **80.00** | **80.00** |
| *Y Ffynnon Anfoneb wedi cyrraedd yn hwyr i'w roi ar y rhaglen ond cytunwyd i'w dalu mis Mehefin 2024* | *Hysbyseb mis Mawrth ac Ebrill (21)* | ***60.00*** | | ***60.00*** | ***60.00*** |

18. Cyflog mis Mai 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2024<br>35 awr y mis x £17.16 = £600.60<br>12 awr ychwanegol = £205.92<br>(*gwaith archwilio*) | 806.52 =<br>Llai treth<br>£161.30 =<br>**£645.22** | **645.22** | **645.22** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mai 2024 | 806.52 x 20% =<br>**£161.30** | **161.30** | **161.30** |
| Costau swyddfa'r Clerc<br>Mai 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau **11.07.2024 (oherwydd fod yr etholiad ar 04.07.2024)**, yn Neuadd Llanystumdwy a drwy zoom.

Materion Hwyr
19. Talu bil Y Ffynnon – cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod 06.06.2024.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**